**Rhif: 3**

| | |
| --- | --- |
| **Rhif y Cais:** | **C20/0190/19/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **27-02-2020** |
| **Math y Cais:** | **Tynnu/Newid Amod(au)** |
| **Cymuned:** | **Bontnewydd** |
| **Ward:** | **Bontnewydd** |
| **Bwriad:** | **Cais am waith sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gan gynnwys:**<br>**• Defnyddio tir fel estyniad i ardal safle'r compownd cyfredol a darparu sied gynnal a chadw, gofod swyddfa, lles a chyfleusterau parcio ceir, storfa danwydd, tanc storio carthion, offer swp-gynhyrchu concrid symudol, offer swp-gynhyrchu asffalt symudol a darparu llwybr cludo (defnydd dros dro),**<br>**• Adeiladu ffordd gludo newydd ar ffin ogleddol y chwarel bresennol gyda chysylltiad dros dro â llwybr ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd yn ystod y cyfnod adeiladu,**<br>**• Parhau i echdynnu mwynau, tynnu deunyddiau o ddyddodion gwaith mwynau a'r stoc bresennol o ddeunyddiau,**<br>**• Adeiladu lleiniau caled a gosod peiriannau ar gyfer prosesu a sgrinio deunyddiau,**<br>**• Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianneg chwarel hirdymor / adfer.**<br>**(Cais dan Adran 73 i newid Amod 3 ar ganiatâd cynllunio C17/0011/19/MW i gyrraedd y lefelau daear a gytunwyd yng nghynllun adfer rhif 3030/16, deunyddiau cloddio sy'n warged i ofynion prosiect ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd yn ychwanegol at ddeunydd cloddio o ffynonellau eraill, gaiff eu rhoi ar y safle yn unol â thrwydded CNC)** |
| **Lleoliad:** | **Gwaith Brics Seiont, Gwaith Seiont, Ffordd Felin Seiont, Caernarfon, Gwynedd LL55 2YL** |
| **Crynodeb o’r Argymhelliad:** | **Gwrthod Caniatâd Cynllunio** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Caniatawyd y caniatâd presennol, C17/0011/19/MW, yn ddarostyngedig i amodau ar 5ed Mehefin 2017 ar gyfer cynigion datblygu oedd yn gysylltiedig gydag adeiladu ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys, ymysg gofynion eraill, defnyddio safle'r cyn-waith brics fel compownd y contractwr, gwaith peirianyddol i ddarparu llwybrau cludo gyda mynediad uniongyrchol i brosiect adeiladu'r ffordd osgoi ac i fewngludo deunyddiau sy'n warged i ofynion y cynllun i'w ddefnyddio mewn gwaith adfer ac i ddelio gyda materion sefydlogrwydd tir ar y safle.

1.2 Mae gwaith wedi dechrau ers amser ar gynllun y ffordd osgoi fydd yn lliniaru tagfeydd yn ardal Caernarfon a'r Bontnewydd ac yn ffurfio rhan o rwydwaith strategol y ffyrdd yng ngogledd Cymru gan ddarparu cysylltiadau gyda choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Dechreuwyd mewngludo deunydd gwarged ar gyfer adfer ym mis Tachwedd 2019 ac yn unol ag amod 7, dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau cyn pen 3 blynedd o hysbysu, oni bai bod gofynion y cynllun yn nodi fel arall. Mae Amod 3 ar hyn o bryd yn cyfyngu mewngludo deunydd gwarged i'r hyn a grëwyd gan brosiect adeiladu'r ffordd osgoi ac mae'r cais hwn yn ceisio o dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio'r amod hwnnw i ganiatáu mewngludo deunyddiau o fan arall i ddelio gyda'r hyn mae'r ymgeisydd yn ei ystyried i fod yn ddiffyg o tua 270,00m3 sydd ei angen i gyrraedd y lefelau adfer.

1.3 Mae Adran 73 yn galluogi ymgeisydd i wneud cais i ddatblygu tir heb gydymffurfio gyda'r amodau sy'n atodol i ganiatâd cynllunio blaenorol sy’n bodoli. Dan yr adran yma gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol newid neu dynnu amodau ond ni all newid unrhyw ran arall o'r caniatâd. Mae cais a.73 llwyddiannus yn golygu caniatáu caniatâd cynllunio newydd ac felly mae'r caniatâd gwreiddiol yn parhau yn gyfan. Wrth benderfynu ar gais a.73, gall yr ACLl osod amodau y tu hwnt i'r rhai a gynigir yn y cais. Er hynny, dylai'r amodau a osodwyd ond fod yn rhai y gellid fod wedi eu gosod ar y caniatâd gwreiddiol. Yn flaenorol, y farn oedd na ddylai'r newidiadau a ganiateir olygu 'newid sylfaenol' o'r bwriad a gynigiwyd yn y cais gwreiddiol.

1.4 Chwarel glai briciau a chyn ffatri gwaith brics yw safle'r cais sydd wedi'i leoli i'r de o Gaernarfon ac sy'n cynnwys gweithfeydd y chwarel, ardaloedd mawr o leiniau caled ar y naill ochr i afon Seiont, porfa fras ar hyd wyneb uchaf y gweithfeydd i'r dwyrain a mynedfa gerbydol sy'n cysylltu Ffordd Melin Seiont â chylchfan Pont Seiont.

**Gwybodaeth Gefndirol mewn Perthynas â Chais Cynllunio C17/0011/19/MW**

1.5 Wrth benderfynu ar y cais gwreiddiol, C17/0011/19/MW, prif bwyslais cynigion y datblygiad a'r Datganiad Amgylcheddol cefnogol oedd hybu manteision y safle fel safle atodol i ofynion prosiect gwella ffyrdd cenedlaethol fel compownd safle, swyddfa, hwb logisteg ac am ei allu i adfer deunyddiau anaddas a grëwyd fel sgil-gynnyrch adeiladu ffyrdd mewn safle adfer.

1.6 O ystyried mor anodd yw hi i amcangyfrif pwysau'r deunydd a gynhyrchir gan brosiect y ffordd osgoi, cadarnhaodd y datblygwr y gellid gosod amodau ar y datblygiad i sicrhau cadw rheolaeth ddigonol dros y bwriad ble fo'r defnydd yn benodol i, ac wedi ei gyfyngu i brosiect adeiladu'r ffordd osgoi. Felly cytunwyd, ymysg gofynion eraill, y dylai unrhyw ganiatâd cynllunio fod yn ddarostyngedig i'r amodau isod;

- Mae cyfnod y caniatâd wedi ei gyfyngu i bum mlynedd o gyflwyno rhybudd dechrau gweithgaredd a olygai
- Mewngludo deunyddiau i adfer y chwarel wedi eu cyfyngu i ofynion cynllun y ffordd osgoi ac wedi'i gyfyngu i gyfnod o dair blynedd o gyflwyno rhybudd dechrau gweithgaredd tirlenwi,

- Cludiant sy'n ymwneud â mewngludo ac allgludo deunyddiau, wedi eu cyfyngu i ddefnyddio'r llwybrau cludiant pwrpasol a ddangosir ar gynllun y cais,
- Arolwg topograffig i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau pan ddaw'r gweithgareddau i ben i ddarparu archwiliad cyflawn o'r deunyddiau sydd ar gael at ddibenion adfer. Os yw cyfaint y deunyddiau a ddeillia o waith adeiladu'r ffordd osgoi yn annigonol i gwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â chynlluniau'r cais, bydd cynllun adfer diwygiedig yn cael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau.
- Cynllun adfer diwygiedig ar gyfer y ffordd gludo ogleddol er mwyn ei adfer er dibenion amaethyddol yn unol â'r canllawiau yn Atodiad B-D NCT 1 (Agregau), gan fanylu ar y cyfaint a lleoliadau storio pob deunydd sydd wedi'i glustnodi at ddibenion adfer, h.y. ni ddylai deunyddiau a gloddiwyd wrth greu'r ffordd gludo gael eu hallgludo oddi ar y safle.

**Asesiad Effaith Amgylcheddol:**

1.7 Roedd y cais gwreiddiol, C17/0011/19/MW yn amodol i Asesiad Effaith Amgylcheddol yn dilyn barn sgrinio gadarnhaol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2015. Roedd y Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin â'r materion amgylcheddol allweddol a nodwyd yn y farn sgrinio ffurfiol a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2015 ar gyfer gwaith yn gysylltiedig ag adeiladu'r ffordd osgoi yn ogystal â gofynion statudol Rheoliadau'r AEA.

1.8 Mae'r Asesiad Cynllunio Gwastraff a gyflwynwyd gyda'r cais hwn yn cadarnhau'r bwriad i amrywio amod 3 i fewnforio deunyddiau o ffynonellau eraill, ond drwy gydymffurfio gyda gofynion amodau eraill sy'n ymwneud â'r oriau gweithredu, amserlen gwaith cludo hyd at 18 Tachwedd 2022 a defnyddio llwybrau cludiant pwrpasol yn gysylltiedig â llwybr y ffordd osgoi. Er hynny, ystyrir bod gofynion Rheoliad 9 (3) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 yn gymwys o ran 'ceisiadau dilynol': "Pan ymddengys i'r awdurdod cynllunio perthnasol nad yw'r wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd ger ei fron eisoes yn ddigonol ar gyfer asesu effeithiau sylweddol y datblygiad ar yr amgylchedd, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad yn ceisio gwybodaeth bellach yn unol â rheoliad 24(1)."

1.9 Gan fod y newidiadau i'r datblygiad sy'n ymwneud â mewngludo deunydd o ffynonellau eraill yn faterol ac yn sylweddol a bod y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r cais gwreiddiol C17/0011/19/MW ddim yn addas i ddechrau asesu effaith y newidiadau i amod 3 oedd yn ymwneud â mewngludo deunyddiau a ffynonellau eraill. Mae'r ymgeisydd yn awr wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn unol â'r rheoliadau AEA.

1.10 Bydd angen ystyried unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol Ewropeaidd ar wahân fel rhan o'r HRA a gynhelir yn unol â Rheoliad 61 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Ni chafwyd unrhyw gyflwyniadau na gwrthwynebiadau gan CNC na Bioamrywiaeth Gwynedd am unrhyw effeithiau ychwanegol y bwriad sydd eisoes wedi eu hasesu gyda'r cynnig gwreiddiol (C17/0011/19/MW) yn unol â Rheoliad 61, Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

### 2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus
Polisi Strategol PS 19: Gwarchod ac/neu Wella'r Amgylchedd Naturiol
Polisi Strategol PS 21: Rheoli Gwastraff
Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
POLISI PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
POLICY GWA 1: Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu
POLISI GWA2: Safleoedd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu
POLISI TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant
POLISI TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant
POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau
POLISI MWYN 8: Pyllau Benthyg
POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal
Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019
Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

### 2.4 Polisïau Cenedlaethol

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Fersiwn 10 (Rhagfyr 2018),
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio, NCT 11: Sŵn, NCT 18: Trafnidiaeth, NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, NCT 21: Gwastraff, NCT 23: Datblygiad Economaidd,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004),
- Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS) 2012,

## 3 Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 Rhoddodd Caniatâd Cynllunio Rhif 390 ganiatâd gydag amodau, ar 22 Tachwedd 1951, i barhau â'r gwaith yng Ngwaith Brics Peblig a Seiont Caernarfon - mae deunydd wedi cael ei echdynnu o'r safle am oddeutu 100 mlynedd ac mae gwaith wedi mynd rhagddo ar y safle'n rheolaidd ers y cyfnod hwnnw.

3.2 C00A/0441/14/MW dyddiedig 10 Mai 2007 - Deddf Amgylchedd 1995, Penderfynu ar amodau a chynllun gweithio dan adolygiad cychwynol (ROMP) ar ganiatâd rhif 390 dyddiedig 22 Tach 1951.

3.3 C00A/0442/14/MW wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 9 Mai 2007 - Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer ailddefnyddio/gwasgaru gwastraff mwynau ar yr hen reilffordd.

3.4 C01A/0750/14/TC - Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithiol dyddiedig 6 Chwefror 2002 ar gyfer defnydd cyfredol y safle hwn fel ardal pentyrru briciau.

3.5 C15/0977/19/LL wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 28 Hydref 2015 ar gyfer newid defnydd y tir ar gyfer gosod tri adeilad dros dro, ardaloedd parcio, dau gynhwysydd storio ynghyd â ffensys diogelwch mewn perthynas ag adeiladu ffordd osgoi Caernarfon.

3.6 Daeth y gwaith yn y chwarel i ben yn 2008 gydag adeilad y gwaith briciau'n cael ei dymchwel yn 2010 a swyddfa'r safle yn 2013.

3.7 C17/0011/19/MW caniatawyd yn ddarostyngedig i amodau ar 5 Mehefin 2017; Cais am waith sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gan gynnwys:

- Defnyddio tir fel estyniad i ardal safle'r compownd cyfredol a darparu sied gynnal a chadw, gofod swyddfa, cyfleusterau lles a pharcio ceir, storfa danwydd, tanc storio carthion, offer swp-gynhyrchu concrid symudol, offer swp-gynhyrchu asffalt symudol a darparu llwybr cludo (defnydd dros dro),
- Adeiladu ffordd gludo newydd ar ffin ogleddol y chwarel bresennol gyda chysylltiad dros dro â llwybr ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd yn ystod y cyfnod adeiladu,
- Parhau i echdynnu mwynau, tynnu deunyddiau o ddyddodion gwaith mwynau a stoc bresennol o ddeunyddiau,
- Adeiladu lleiniau caled a gosod peiriannau gwaith ar gyfer prosesu a sgrinio deunyddiau,
- Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianneg chwarel hirdymor / adfer.

3.8 Caniatawyd C17/0107/19/LL yn ddarostyngedig i amodau ar 4 Mehefin 2017; Cais am ganiatâd cynllunio dros dro am waith cysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gan gynnwys:

- Compownd safle a darparu sied gynnal a chadw, gofod swyddfa, lles a chyfleusterau parcio ceir, storfa danwydd, tanc storio carthion, offer swp-gynhyrchu concrid symudol, offer swp-gynhyrchu asffalt symudol a darparu llwybr cludo.

## 4. Ymgyngoriadau:

| | Ymgynghoriad 1af | 2il Ymgynghoriad |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bontnewydd: | Dim Ymateb | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Waunfawr: | Yn gofyn a yw hi'n bosib gohirio penderfynu ar y cais oherwydd Covid 19. Ddim yn gallu cyfarfod ar hyn o bryd i drafod y cais yn fanwl ac i dderbyn cyngor arbenigol ar y mater. Dylid ystyried y cais yn drylwyr gan y gallai effeithio ar y gymuned am gyfnod hir iawn o amser. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Tref Caernarfon: | PRYDERON<br>• Mewngludo deunydd o ffynonellau eraill heblaw am yr hyn gaiff ei gynhyrchu o adeiladu ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd.<br>• Cynyddu traffig ar Ffordd Melin Seiont. Byddai hyn yn golygu llai o le i gerbydau basio, gyda risg o ddifrodi'r bont (sy'n rhestredig), a chynnydd sylweddol mewn traffig trwm a fyddai'n difrodi'r ffordd ymhellach ac yn achosi diflastod i drigolion Ffordd Melin Seiont.<br><br>Penderfyniad i gefnogi'r cais mewn egwyddor yn ddarostyngedig i rai amodau:<br>1. Dylai unrhyw ddeunydd ychwanegol o'r tu allan sydd ei angen i lenwi'r chwarel gael ei gludo ar hyd y ffordd osgoi a bod hyn wedi ei gyfyngu i gyfnod adeiladu'r ffordd osgoi.<br>2. Bod yr hyn sy'n mynd i mewn i'r twll chwarel yn ddiogel o ran deunydd a phlanhigion gwenwynig a /neu beryglus.<br>3. Bod y gwaith tirlenwi yn dod i ben unwaith fo'r ffordd osgoi wedi ei chwblhau.<br>4. Nad oes unrhyw wastraff gwenwynig yn mynd i'r afon.<br>5. Os yw'n cael ei ddefnyddio cyn fod y ffordd osgoi yn ei lle, bod Ffordd Melin Seiont yn cael ei chadw'n lân. | Sicrwydd na fydd Cerbydau Cludo Nwyddau Trwm yn defnyddio'r ffordd un trac o'r Bontnewydd drwy bentref Caeathro sef y llwybr byrraf i'r chwarel.<br><br>Mae pont Pontrug yn wan gyda chyfyngiad o 18 tunnell. A yw hyn wedi'i gynnwys a'i ystyried yn y cais? |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd: | • Yn argymell bod unrhyw ddeunydd ychwanegol o'r tu allan sydd ei angen i lenwi'r chwarel yn cael ei gludo ar hyd ffyrdd cludo'r ffordd osgoi gan gyfyngu hyn i amserlen adeiladu'r ffordd osgoi,<br>• Pryderon y gallai'r amrywiad i amod 3 ganiatáu mewngludo deunydd wedi'i gloddio ar raddfa flynyddol sydd heb ei diffinio, gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn cynnwys mynediad presennol i swyddfa'r safle yn Ffordd Melin Seiont oedd hefyd yn gwasanaethu'r cyn-Waith Brics. | Mae anghysondeb rhwng dogfennau mewn perthynas â'r diffyg sydd ei angen i fewnlenwi'r chwarel. Mae Asesiad y Gymraeg yn pennu diffyg o 270,000 m³ tra bod yr addendum ES yn datgan 171,422 m³. Mae'r gwahaniaeth yn sylweddol a gallai olygu bod y gwaith yn cymryd bron ddwywaith yr amser os yw'r raddfa mewngludo i'r safle yn parhau yn 50,000 tpa.<br><br>Mae'r cais yn ymwneud â chael mynediad i'r ffordd gludo dros dro ar hyd yr A4085 rhwng Caeathro a Chaernarfon. Mae hwn yn drefniant mynediad dros dro, wedi'i reoli drwy reoli traffig am gyfnod gwaith adeiladu'r ffordd osgoi, a chredaf bod y dyddiad cwblhau yn niwedd 2021. Nid yw'r cais yn cynnwys unrhyw luniadau sy'n ymwneud â'r fynedfa yma, nac yn ymestyn ar y cynigion i'w gwneud yn barhaol na'i chadw ar sail dros dro estynedig ar gyfer y gwaith mewnlenwi. Mae angen manylion llawn mewn perthynas â'r pwynt mynediad yma. |

| | | |
|---|---|---|
| Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: | Fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am Gefnffordd yr A487, mae Llywodraeth Cymru'n nodi na fydd yn cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Prosiect y Ffordd Osgoi | • Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond yn amlwg angen sicrwydd na fydd amrywio'r amod cynllunio ymadael ddim ag unrhyw | • |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cyflawni Seilwaith: | effaith ar adeiladwaith y ffordd osgoi nac yn cynyddu risgiau i Lywodraeth Cymru,<br>• Yn ei hanfod, mae amrywio amod 3 yn golygu y byddai angen i wagenni ffyrdd fynd ar safle adeiladu Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd yr A487 o Ffordd Caeathro sef yr A4085 gan deithio ar hyd safle'r ffordd osgoi am tua 270 metr er mwyn cael mynediad i'r chwarel i ddadlwytho deunydd.<br>• I gydymffurfio â chais cynllun cyf: C17/0011/19/MW, byddai hefyd angen i'r mynediad fod ar dir sydd wedi'i gaffael gan LlC i adeiladu a chynnal a chadw'r ffordd osgoi.<br>• Bydd gan y bwriad oblygiadau cytundebol rhwng LlC a Menter ar y Cyd Balfour Beatty/Jones Bros (JV). Yn amodol i gymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd angen i unrhyw newid i'r amodau cynllunio presennol gael eu hymgorffori yn y contract adeiladu.<br><br>Mae angen rhai amodau a sicrwydd ar ran y contractwr gwaith i sicrhau nad oes unrhyw gost ychwanegol neu risgiau i Lywodraeth Cymru neu oedi gydag adeiladwaith y ffordd osgoi gan gynnwys ymysg gofynion eraill;<br>• Byddai'r JV fel y Prif Gontractwr i'r ffordd osgoi angen cymryd dyletswyddau ychwanegol i gynllunio a rheoli'r wagenni ffordd yn ddiogel drwy gael mynediad i a gadael safle'r ffordd osgoi. Mae hyn yn gofyn bod cynllun rheoli traffig (yn cynnwys datganiadau dull ac asesiadau risg) yn cael ei baratoi, er cymeradwyaeth gan LlC, i nodi sut byddai'r wagenni ffordd yn cael mynediad i ac yn gadael safle'r ffordd osgoi, a threfniadau i wahanu neu reoli gwaith adeiladwaith y ffordd osgoi a wagenni ffordd trydydd parti a fyddai'n defnyddio'r ffordd gludo ar yr un pryd.<br>• Mae ffordd gludo safle'r ffordd osgoi yn ddigonol i'r gwaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | adeiladu, er hynny, efallai nad yw'n addas i gymryd wagenni ffordd. Byddai LlC felly angen cadarnhad na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael ei ysgwyddo gan gynllun y ffordd osgoi i uwchraddio a chynnal y ffordd gludo i safon sy'n caniatáu i wagenni ffordd ei defnyddio ac na fyddai unrhyw gostau ychwanegol nac adnoddau yn cael eu defnyddio i reoli'r wagenni ffordd fyddai yn cael mynediad i ac yn gadael safle'r ffordd osgoi. Mae hyn yn cynnwys adnoddau i ddelio gydag ymholiadau neu gwynion yn ymwneud â gweithrediad wagenni trydydd parti.<br>• Bydd LlC angen datganiadau dull ysgrifenedig ar gyfer cymeradwyaeth ar sut y dylid cludo'r deunydd drwy safle'r ffordd osgoi yn ystod cloddwaith, draenio a gwaith arwyneb heb achosi unrhyw niwed parhaol.<br>• Dywed Amod 7 o'r cyf. cynllunio: C17/0011/19/MW bod gwaith cludo sy'n golygu mewngludo deunydd yn cael ei gwblhau cyn pen tair blynedd o hysbysiad amod 4c, sef 18 Tachwedd 2022. Er hynny, mae gwaith adeiladu'r ffordd osgoi wedi ei raglennu ar hyn o bryd i'w gwblhau erbyn Hydref/Gaeaf 2021 ac felly mae LlC angen eglurder ar sut bydd y deunydd yma'n cael ei gludo i'r chwarel wedi cwblhau'r ffordd osgoi a'i hagor i drafnidiaeth. Ni chaniateir unrhyw fynediad o'r ffordd osgoi unwaith y bydd yn agored i drafnidiaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd (HT): | Dim Ymateb | |

| | | |
|---|---|---|
| Dŵr Cymru: | Dim sylwadau i'w gwneud mewn perthynas â'r cais. | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: | Dim Ymateb | |

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power: | Dim Ymateb | |

| | | |
|---|---|---|
| Arolygiaeth Chwareli: | Dim sylwadau gwrthwynebus i'w gwneud ar y cynigion diwygiedig. Mae'n ymddangos yn synhwyrol i adfer y tirffurf i amwynder sy'n ddiogel i'r cyhoedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru: | Dim Ymateb | |

| | |
|---|---|
| CADW: | Dim Ymateb |

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod Llifogydd Lleol: | Dim sylwadau ar ddraenio tir na pheryglon posib llifogydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| Uned Bioamrywiaeth Gwynedd: | Nid oes unrhyw bryderon bioamrywiaeth gyda'r elfen benodol hon ar yr amod bod y deunydd a gludir yno yn ddiogel, nad yw'n cynnwys unrhyw lygredd na rhywogaethau o blanhigion ymledol nad ydynt yn gynhenid. | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: | Yn gofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd i lawn asesu'r bwriad.<br><br>Mae'r cais yma'n newid natur y caniatâd gwreiddiol. Roedd pryderon a gyfeiriwyd drwy'r gwasanaeth gan aelodau o'r cyhoedd ar y cais gwreiddiol ar y pryd, y byddai'r bwriad yn rhagarweiniad i weithredu'r hen chwarel fel safle tirlenwi. Rhoddwyd sicrwydd mai dros dro a hanfodol oedd y gwaith a fyddai'n cael ei wrthbwyso gan y fantais a gynigwyd gan well isadeiledd cludiant.<br><br>Nid yw'r cais yn cynnwys arolwg sŵn nac unrhyw asesiad amgylcheddol arall i ddangos unrhyw effaith na mesurau lliniaru sydd eu hangen i weithredu'r safle fel cyfleuster gwaredu gwastraff a phrosesu. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Pryderon sylweddol gyda'r datblygiad arfaethedig fel y'i cyflwynwyd gan argymell y gellid ond rhoi caniatâd cynllunio os yw'r gofyniad dilynol yn cael ei gwrdd. Fel arall, mae CNC yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn.<br>• Gofyniad - Bod yr ymgeisydd yn diweddaru'r manylion cyswllt yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Nodwn mai dyddiad y fersiwn CEMP yw Awst 2011, ac mae nifer helaeth o'r enwau cyswllt sydd yn y ddogfen bellach ddim yn gweithio i Cambrian/Jones Bros, yn cynnwys y Rheolwr Amgylcheddol a enwyd fel y person sy'n gyfrifol am y CEMP. Rhaid i'r ymgeisydd ddiweddaru'r CEMP gydag enwau'r gweithwyr presennol.<br>• Cadarnhau bod Trwydded Amgylcheddol y safle yn caniatáu i wastraff gael ei fewngludo o ffynonellau eraill heblaw am gynllun y Ffordd Osgoi.<br>• Mae NCT 21 Gwastraff (Chwefror 2014) yn gofyn bod unrhyw gais am gyfleusterau gwastraff a ddosbarthwyd fel gwaredu, adfer neu ailgylchu yn cael ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff. Os oes angen asesiad yna dylai fod yn briodol ac yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig.<br>• Yn cynghori yn ychwanegol at y caniatâd cynllunio, mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gwneud yn sicr fod ganddynt yr holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w datblygiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Ymddangosodd hysbysiadau yn y wasg leol a chafodd hysbysiadau hefyd eu harddangos yng nghyffiniau ardal y cais. Derbyniwyd naw llythyr yn gwrthwynebu yn tynnu sylw at y pryderon a ganlyn:<br><br><u>Rhesymau dros Wrthwynebu:</u><br>• Cynyddu traffig yn sylweddol ar hyd Ffordd Melin Seiont<br>• Gwelededd mynedfa'r safle, ymddygiad gyrwyr a mwy o risg o wrthdrawiad ers dechrau'r gwaith a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at reolwr y safle<br>• Effeithiau mwynderau ar eiddo preswyl oherwydd dechrau yn gynnar am 6.00am ar y safle<br>• Nid yw'r llwybr penodol i gludo deunyddiau yn cyfrif am yr holl symudiadau traffig i ac o'r safle,<br>• Safon y briffordd sy'n gwasanaethu eiddo ar hyd Ffordd Melin Seiont a'i gallu i ddelio gyda symudiadau traffig i ac o'r safle. | Ymddangosodd hysbysiadau yn y wasg leol a chafodd hysbysiadau hefyd eu harddangos yng nghyffiniau ardal y cais. |

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**5. Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae Amod 3 ar hyn o bryd yn cyfyngu mewngludo deunydd gwarged a gynhyrchwyd gan waith adeiladu'r ffordd osgoi fel a ganlyn;

"Ni chaiff dim heblaw am ddeunydd cloddio anadweithiol, sy'n warged i ofynion prosiect ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd, ei osod ar y safle a'i ddefnyddio yn y gwaith adfer".

Mae'r cais yn cynnig y newidiadau isod i eiriad yr amod;

*"I gwrdd â'r lefelau daear a gytunwyd yng nghynllun adfer rhif 3030/16, bydd deunyddiau cloddio sy'n warged i ofynion prosiect ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd yn ychwanegol at ddeunydd cloddio anadweithiol o ffynonellau eraill, yn cael eu rhoi ar y safle yn unol â thrwydded CNC".*

5.2 Mae Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys wrth benderfynu ar geisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio gyda'r amodau oedd yn ddarostyngedig i'r caniatâd cynllunio a gymeradwywyd. Mae'n pennu; *"(2) On such an application the local planning authority shall consider only the question of the conditions subject to which planning permission should be granted, and—*

*(a) if they decide that planning permission should be granted subject to conditions differing from those subject to which the previous permission was granted, or that it should be granted unconditionally, they shall grant planning permission accordingly, and*

*(b) if they decide that planning permission should be granted subject to the same conditions as those subject to which the previous permission was granted, they shall refuse the application".*

5.3 Wedi derbyn cais ar gyfer caniatâd cynllunio dan a.73 o Ddeddf 1990, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y cynllun datblygu a'r ystyriaethau cynllunio materol, ond wrth wneud hyn, bydd ond yn ystyried cwestiwn yr amodau y dylai'r caniatâd cynllunio fod yn ddarostyngedig iddynt ac ni ellir mynd yn ôl at y penderfyniad gwreiddiol i roi caniatâd.

5.4 Mae cyfraith achosion cynllunio wedi sefydlu bod; "a permission under section 73 can only take effect as an independent permission to carry out *the same development as previously permitted*, but subject to the new or amended conditions." Furthermore, it is well-settled law that a condition on a planning permission will not be valid if it alters the extent or the nature of the development permitted. Mae gwahaniaeth felly rhwng 'rhan gweithredol' neu roi'r caniatâd cynllunio ar un llaw, a'r amodau mae'r rhan weithredol neu'r caniatâd yn ddarostyngedig iddo, h.y. mae'r caniatâd yn nodi beth y gellid ei wneud - beth y caniateir - cyn belled â bod defnydd y tir dan sylw; ble fo'r amodau yn nodi beth na ellir ei wneud - yr hyn a waherddir.

5.5 Yn unol â hyn, nid yw a.73 yn cynnwys unrhyw bŵer i roi caniatâd cynllunio newydd gyda rhan weithredol wahanol i'r hyn sydd yn y gwreiddiol a byddai hefyd yn anghyfreithlon i'r ACLl osod amod newydd neu wedi'i amrywio ar ganiatâd cynllunio dan a.73 oedd yn anghyson gyda rhan weithredol y caniatâd.

5.6 Mae rhan sylfaenol a phwysig disgrifiad y datblygiad, neu 'ran weithredol y caniatâd' yn caniatáu ar gyfer: "Gwaith sy'n gysylltiedig gydag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd ...;" a bod yn rhaid ystyried pob pwynt bwled dilynol yng nghyd-destun y gwaith sy'n gysylltiedig gyda chynllun y ffordd *"... yn cynnwys* ":

- "*Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianneg chwarel hirdymor / adfer*.."

5.7 Mae Amod 3 yn cefnogi disgrifiad y datblygiad ac mae pwrpas y cynnig i'w weld yn sylfaenol eglur. Dylid ystyried y disgrifiad yn gyfan ac felly safbwynt yr Awdurdod yw bod y cais presennol dan Adran 73 yn newid 'graddau neu natur y datblygiad', a gymeradwywyd yn flaenorol i "waith yn gysylltiedig gydag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd ...". Felly, ar yr adeg y penderfynwyd ar y cais gwreiddiol, ni fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod mewn sefyllfa i lunio geiriad amgen ar gyfer amod 3 fel yr awgrymwyd yn y cais ac yn unol â hynny, mae'r Awdurdod yn ystyried na ddylid newid amod 3 ac nid oes un amgen ond i argymell gwrthod yn unol â a.73(2) (b) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

## 6. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol Eraill i'r Cais

6.1 Er bod gwybodaeth wedi ei chyflwyno gan yr ymgeisydd i gefnogi'r cais ac i ddiwallu gofynion yr Asesiad Effaith Amgylcheddol, ystyrir bod dadansoddiad llawn o rinweddau'r cais yn anaeddfed ac y dylid ei ddal yn ôl i gyflwyno cais cynllunio newydd sy'n unol â'r broses gywir a'r rheoliadau.

## 7. Casgliadau

7.1 Nid yw Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys unrhyw bŵer i roi caniatâd cynllunio newydd gyda rhan weithredol wahanol i'r hyn oedd yn y gwreiddiol a byddai hefyd yn anghyfreithlon i ACLl i osod amod newydd neu wedi'i newid ar ganiatâd cynllunio dan a.73 oedd yn anghyson gyda rhan weithredol y caniatâd. Mae rhan sylfaenol a phwysig disgrifiad y datblygiad, neu 'ran weithredol y caniatâd' yn caniatáu ar gyfer; "*Gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig A487 Caernarfon i Bontnewydd* ...;" a bod yn rhaid ystyried pob pwynt bwled dilynol yng nghyd-destun y gwaith sy'n gysylltiedig gyda chynllun y ffordd *"... yn cynnwys* ":

- "*Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianneg chwarel hirdymor / adfer*.."

7.2 Dylid ystyried y disgrifiad yn gyfan ac felly sefyllfa'r Awdurdod yw bod y cais presennol dan Adran 73 yn newid 'graddau neu natur y datblygiad', a gymeradwywyd yn flaenorol. Felly, mae'r Awdurdod yn ystyried na ddylid newid amod 3 ac nid oes geiriad amgen ond argymhellir ei wrthod yn unol â a.73(2) (b) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

7.3 Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn unol ag anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 8. Argymhelliad

**8.1 Awdurdodi Uwch Reolwr, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i wrthod y cais am y rhesymau isod;**

Mae'r bwriad yn newid graddau neu natur y datblygiad a gymeradwywyd yn flaenorol i "*waith yn gysylltiedig gydag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd* ..." ac mae'r Awdurdod felly yn ystyried na ddylid newid amod 3 yn unol â a.73(2) (b) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.